

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A
LLESIANT (CYMRU)

ADNODDAU HYFFORDDI: CYFLWYNIAD AC YMWYBYDDIAETH



Deall y Ddeddf

#DeallyDdeddf

www.cgymru.org.uk



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Manylion Cyswllt

Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Ffacs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: hyb@cgymru.org.uk
www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/

 [gettheact](https://www.facebook.com/gettheact)  [@DeallyDdeddf](https://twitter.com/DeallyDdeddf)

© 2016 Cyngor Gofal Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Copïau a fformatau eraill ar gael:

Mae rhagor o gopïau o'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau eraill.

Mae rhagor o gopïau ac holl adnoddau eraill y Cyngor Gofal ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan www.cgymru.org.uk

Mynegai adnoddau hyfforddi

ADRAN 01 - CYD-DESTUN A CHYFLWYNIAD

Trosolwg o'r adnoddau: ar gyfer pwy maen nhw, amcanion a deilliannau dysgu ac awgrymiadau ar sut i gael y gorau ohonynt.

Neges fideo Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
www.youtube.com/watch?v=2gdEHY3pCbs

ADRAN 02 - RHAGLEN A CHYNLLUN AR GYFER GWEITHDY

Rhaglen ar gyfer gweithdy dwyawr a chynllun ar gyfer yr hyfforddwr: cyflwyniad i'r Ddeddf ac ymwybyddiaeth ohoni.

ADRAN 03 - CYFLWYNIAD

Cyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r Ddeddf ac yn cynnwys nodiadau hwylusydd ar gyfer arweiniad a pharatoi. Gellir ei argraffu fel taflen waith hefyd gyda lle i'r cyfranogwyr wneud nodiadau.

ADRAN 04 - SYNIADAU AR GYFER GWAITH GRŴP

Darperir amrywiaeth o opsiynau a gall yr hwylusydd ddewis neu greu ei ymarferion gwaith grŵp ei hun i ddiwallu anghenion y gynulleidfa.

ADRAN 05 - SYNIADAU AR GYFER PECYN CYFRANOGWR

Rhestr o ddeunyddiau a thafleni gwaith a argymhellir ar gyfer pecyn cyfranogwr.

ADRAN 06 - GWERTHUSO A CHYNLLUN GWEITHREDU PERSONOL

I'w defnyddio ar ddiwedd y gweithdy.

ADRAN 07 - DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Casgliad o daflenni gwaith ac adnoddau ychwanegol y gellir eu cynnwys ym mhecyn y cyfranogwr neu eu cyflwyno fel rhan o'r gweithdy.

Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu:
www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/. Ni chaniateir
defnyddio unrhyw ran, neu'r cyfan, o'r adnodd dysgu hwn ar
gyfer elw masnachol.

ADRAN 01

CYD-DESTUN A
CHYFLWYNIAD

Cyd-destun a chyflwyniad

Cyd-destun

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ffurfio'r sail ar gyfer fframwaith statudol newydd i ofal cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaeth y Gweinidogion datgan yn glir eu bod am i elfennau craidd y fframwaith hwn fod ar waith erbyn mis Ebrill 2016, pan ddaeth y Ddeddf i rym.

Y prif newidiadau yw bod egwyddor gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalmwr sydd angen cymorth. Mae'r ffocws hwn ar lesiant, a mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalmwr, yn gosod y sylfeini ar gyfer gwella ledled y sector.

Cyflwyniad

Mae'r adnoddau hyfforddi hyn yn gyntaf mewn cyfres o ddeunyddiau i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn effeithiol.

Amcan yr adnoddau yw cynorthwyo'r hwylusydd i ddarparu gweithdy cyflwyno a chodi ymwybyddiaeth byr (dwy neu dair awr). Darperir deunyddiau ychwanegol i alluogi'r hwylusydd i ymestyn neu deilwra'r gweithdy i anghenion cynulleidfa benodol, neu i amrywio'r dulliau cyflwyno.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyn, bydd angen dealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion y Ddeddf ar yr hwylusydd a'r sgiliau hwyluso i reoli trafodaethau'r gynulleidfa benodol.

Amcan yr hyfforddiant

- Rhoi trosolwg o'r Ddeddf
- Cefnogi gweithredu'r Ddeddf
- Darparu sail ar gyfer hyfforddiant manylach a mwy arbenigol, fel bo angen

Deilliannau dysgu

Erbyn diwedd y gweithdy bydd cyfranogwyr yn:

- Gwybod am hanes a datblygiad y Ddeddf
- Ymwybodol o rannau a nodweddion y Ddeddf
- Gwerthfawrogi'r prif wahaniaethau yn y pwyslais ar ofal a chymorth
- Dechrau nodi newidiadau mewn ymarfer
- Dechrau nodi anghenion hyfforddi pellach

Grwpiau targed

- Rheolwyr ac aelodau etholedig awdurdodau lleol
- Holl reolwyr gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr gofal cymdeithasol, staff cynllunio, cymorth a chomisiynu
- Rheolwyr a darparwyr yn y sectorau statudol ac annibynnol a'r trydydd sector
- Rheolwyr ac ymarferwyr y GIG

Bydd angen i'r hwylusydd ystyried amrywiaeth y cyfranogwyr a maint y grŵp wrth benderfynu ar y cynnwys a'r amseroedd terfynol, a dewis trafodaethau ar gyfer gwaith grŵp.

Yr adnoddau hyfforddi

Mae'r adnoddau hyfforddi hyn yn cynnwys:

- Rhaglen a awgrymir ar gyfer gweithdy
- Cynllun gweithdy'r hyfforddwr
- Cyflwyniad PowerPoint gyda nodiadau i'r hyfforddwr
- Syniadau ar gyfer gwaith grŵp
- Syniadau ar gyfer pecyn cyfranogwr
- Ffurflen werthuso
- Ddeunyddiau ychwanegol
 - Taflen PowerPoint gyda lle i'r cyfranogwyr gwneud nodiadau
 - Dolenni defnyddiol

Gellir addasu'r holl adnoddau hyn i ddiwallu anghenion y cyfranogwyr a'r cyd-destun lleol neu ranbarthol.

Pecyn cyfranogwr

Gellir defnyddio'r adnoddau hyfforddi hyn i lunio pecyn o ddeunyddiau perthnasol ar gyfer pob cyfranogwr (gweler Syniadau ar gyfer Pecyn Cyfranogwr).

Gwerthuso

Dylai'r hwylusydd ganiatáu digon o amser i werthuso'r gweithdy gan ganolbwyntio ar:

- A gyflawnwyd y deilliannau dysgu
- Y camau gweithredu y mae'r cyfranogwr yn bwriadu eu cymryd i ddatblygu eu dysgu

Gall fod yn briodol annog / gofyn i'r cyfranogwr rannu cynllun gweithredu gyda'i reolwr neu dîm hyfforddi.

Cydnabyddiaeth

Diolch i'r sefydliadau canlynol am ddeunyddiau, enghreifftiau, amser ac arbenigedd i ddatblygu'r adnoddau hyfforddi hyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Conwy
Eliesha Training
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

ADRAN 02

RHAGLEN A
AWGRYMIR
AR GYFER
Y GWEITHDY

Rhaglen a awgrymir ar gyfer y gweithdy

Croeso a chyflwyniad	(5 mun)
Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	(20 mun)
Trafodaeth grŵp	(10 mun)
Mwy am y Ddeddf	(30 mun)
Goblygiadau ar gyfer ymarfer	(30 mun)
Gweithredu lleol / rhanbarthol	(15 mun)
Gwerthuso, yn cynnwys anghenion hyfforddi	(10 mun)

Sylwer: Gellir newid yr amseroedd ac ychwanegu gweithgareddau yn dibynnu ar anghenion y cyfranogwyr a'r amser sydd ar gael.

Cynllun gweithdy'r hyfforddwr

Croeso a chyflwyniad	(5 mun)
-----------------------------	----------------

Tynnwch sylw at amcanion a deilliannau dysgu'r gweithdy. Pwysleisiwch mai digwyddiad cyflwyno a chodi ymwybyddiaeth yw hwn. Gofynnwch i'r cyfranogwyr nodi anghenion hyfforddi pellach. Tynnwch sylw at becyn y cyfranogwr.

Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	(20 mun)
---	-----------------

Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint a sleidiau a nodiadau, sleidiau 1-12, i gyflwyno cefndir ac egwyddorion y Ddeddf. Gall yr hwylusydd ddewis treulio mwy o amser ar rai sleidiau nac eraill yn dibynnu ar y gynulleidfa a'r amser sydd ar gael, ond mae'n hanfodol cyfleu **egwyddorion** ac **amcanion** y Ddeddf, yn ogystal â rhoi **trosolwg o'r cynnwys a'r rhannau**.

Trafodaeth grŵp	(10 mun)
------------------------	-----------------

Pa effaith fydd y diffiniad o lesiant yn ei chael ar ymarfer? (Taflen 1)

Sylwer: Yn dibynnu ar y gynulleidfa, gellir addasu'r ymarfer hwn i ystyried y diffiniad o lesiant mewn perthynas â meysydd eraill fel polisi, datblygu gwasanaethau, "eich rôl" ac ati.

Mwy am y Ddeddf	(30 mun)
------------------------	-----------------

Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint a sleidiau nodiadau, sleidiau 13-32, i gyflwyno rhannau'r Ddeddf. Gall yr hwylusydd ddewis treulio mwy o amser ar rai sleidiau nac eraill yn dibynnu ar y gynulleidfa a'r amser sydd ar gael, ond mae'n hanfodol cyfleu **egwyddorion** ac **amcanion** y Ddeddf; yn ogystal â rhoi **trosolwg o'r cynnwys a'r rhannau**.

Goblygiadau ar gyfer ymarfer

(30 mun)

Naill ai:

Beth yw'r goblygiadau ar gyfer ymarfer? (*Taflen 2*)

Neu:

Defnyddiwch *Syniadau trafod*

Neu:

Defnyddiwch yr amser i drafod beth sy'n "amserol" ar adeg darparu'r hyfforddiant, e.e. gweithredu lleol.

Gweithredu lleol / rhanbarthol

(15 mun)

Rhowch wybodaeth am strwythurau lleol a rhanbarthol a chynnydd cynlluniau i weithredu'r Ddeddf. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am gyflawni cynlluniau gweddnewid a hyfforddiant pellach. Gallai gynnwys sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddatblygiadau o ran darparu gofal a chymorth yn lleol a rhanbarthol.

Gwerthuso

(10 mun)

Gwerthuso'r gweithdy, e.e. drwy wahodd cyfranogwr i lenwi ffurflen gwerthuso gweithdy.



ADRAN 03

CYFLWYNIAD

SLEID 1: Nodau ac amcanion

Nod

- Rhoi trosolwg o'r Ddeddf

Bydd cyfranogwyr yn:

- Gwybod am hanes y Ddeddf
- Ymwybodol o rannau a nodweddion y Ddeddf
- Gwerthfawrogi'r gwahaniaethau yn y pwyslais ar ofal a chymorth
- Gwybod beth yw'r amserlen ar gyfer gweithredu
- Dechrau nodi newidiadau mewn ymarfer
- Dechrau nodi anghenion hyfforddi pellach

Nodiadau Hwylusydd

Atgoffa mai trosolwg cryno a chyffredinol o'r Ddeddf yw hwn.

Nod y gweithdy yw:

- Cefnogi gweithredu'r Ddeddf
- Darparu sail ar gyfer hyfforddiant manylach a mwy arbenigol, fel bo angen



SLEID 2: Datblygiad y Ddeddf

- Derbyniodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith ar 1 Mai 2014
- Gweithredwyd y Ddeddf ym mis Ebrill 2016

Nodiadau Hwylusydd

- Gweithredwyd y Ddeddf ym mis Ebrill 2016
- Mae'r ddeddfwriaeth hon yn wahanol i'r Ddeddf Gofal 2014 sy'n cwmpasu Lloegr
- Am y tro cyntaf mae deddfwriaeth gofal cymdeithasol cwbl wahanol i Gymru a Lloegr
- Y prif wahaniaethau rhyngddynt yw bod Deddf Cymru'n berthnasol i bobl o bob oed sydd angen gofal a'u gofalmwr. Mae Deddf Lloegr wedi'i chyfyngu'n bennaf i anghenion oedolion
- Mae tair rhan i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol. Y rhan gyntaf yw'r Ddeddf ei hun. Y rheoliadau a chodau ymarfer neu ganllawiau statudol yw'r ddwy ran arall, sy'n helpu i roi'r manylion a helpu'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf i ddeall sut maent i fod i wneud hynny



SLEID 3: Datblygiad y Ddeddf

- Yn 2011, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylid diddymu llawer o'r statudau dryslyd ac anghyson ym maes gofal cymdeithasol a chyflwyno un Ddeddf yn eu lle
- Argymhellwyd diddymu neu ddiwygio mwy na 40 statud
- Roedd y Comisiwn yn argymhell cael un statud modern a chlr, a chôd ymarfer a fyddai'n braenaru'r tir ar gyfer system gofal cymdeithasol gydlynol

Nodiadau Hwylusydd

Comisiwn y Gyfraith yw'r corff annibynnol statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i adolygu'r gyfraith yn gyson ac argymhell diwygiadau pan fo angen.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell ailwampio cyfraith gofal cymdeithasol oedolion yn sylweddol, 11 Mai 2011.

Mewn adroddiad a gyhoeddir heddiw, mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y diwygiadau mwyaf pellgyrhaeddol i gyfraith gofal cymdeithasol oedolion a welwyd ers mwy na 60 mlynedd.

Byddai argymhelliad y Comisiwn am un statud modern, clir, a chod ymarfer yn braenaru'r tir ar gyfer system gofal cymdeithasol gydlynol. Am y tro cyntaf, bydd pobl hŷn, pobl anabl, y rhai â phroblemau iechyd meddwl a gofawyr yn gwybod yn union beth yw eu hawliau cyfreithiol i dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd gan gynghorau lleol ledled Cymru a Lloegr reolau clir a chryno ynghylch pryd mae'n rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau. Mae argymhellion y Comisiwn yn cynnwys:

- Rhoi llesiant yr unigolyn wrth galon penderfyniadau, gan ddefnyddio egwyddorion statudol newydd
- Rhoi hawliau cyfreithiol newydd i ofalwyr dderbyn gwasanaethau
- Gosod dyletswyddau ar gynghorau a'r GIG i gydweithio
- Datblygu un fframwaith asesu a chymhwysedd syml
- Diogelu defnyddwyr gwasanaethau rhag camdriniaeth ac esgeulustod gyda fframwaith cyfreithiol newydd, ac
- Am y tro cyntaf, rhoi statws statudol i fyrddau diogelu oedolion

SLEID 4: Datblygiad y Ddeddf

- Mae'r Ddeddf yn cyflwyno diwygiadau eang i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru
- Mae'n gweithredu'r polisi ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*
- Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (2007) *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*

Nodiadau Hwylusydd

Mae'r Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yn dilyn naw egwyddor:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ei gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symrlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae datblygiadau yn mynd yn ôl ymhellach na hyn ac fe blannwyd yr hadau ar gyfer y Ddeddf yn y Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (2007) *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*. Cyfeiriwch at y dolenni a chynghorwch y cyfranogwyr i ailedrych ar y dogfennau hyn.

SLEID 5: Rhannau

Cyflwyniad

Swyddogaethau
Cyffredinol

Asesu
Anghenion
Unigolion

Diwallu
Anghenion

Codi
Ffioedd ac
Asesiadau
Ariannol

Plant sy'n
derbyn gofal
a phlant sy'n
cael eu lletya

Diogelu

Swyddogaethau
Gwasanaethau
Cymdeithasol

Cydweithrediad
a Phartneriaeth

Cwynion,
Sylwadau a
Gwasanaethau
Eirioli

Amrywiol a
Chyffredinol

Egwyddorion

- Llais a rheolaeth
- Atal ac ymyrryd yn gynnar
- Llesiant
- Cydgynhyrchu
- Aml-asiantaeth

Pobl

- Oedolion
- Plant
- Gofalwyr

CANLYNIADAU

Nodiadau Hwylusydd

Trosolwg o'r Ddeddf:

- Y Tair Efen
 - Rhannau'r Ddeddf
 - Egwyddorion y Ddeddf
 - Y bobl mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt

Efallai y byddai yr hwylusydd am bwylseisio'r **egwyddorion**.

SLEID 6: Datblygiad y Ddeddf

- Nodau'r Ddeddf:
 - Ymgysylltu â dinasyddion a'u grymuso
 - Hyrwyddo annibyniaeth a llesiant
 - Rhoi rheolaeth i bobl sy'n derbyn cymorth a'u gofalwyr dros eu bywydau a'r cymorth maent yn ei dderbyn fel eu bod mor annibynnol â phosib

Nodiadau Hwylusydd

Bydd y Ddeddf yn trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, yn hyrwyddo annibyniaeth pobl ac yn rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt.

Mae'n darparu'r fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo pobl o bob oed, a chynorthwyo pobl fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

SLEID 7: Datblygiad y Ddeddf

- Dyletswyddau newydd y Ddeddf:
 - Rhoi blaenoriaeth i wella llesiant dinasyddion a darparu mwy o gymorth
 - Gweithio ar draws ffiniau gwasanaethau mewn partneriaeth
 - Rhoi amddiffyniad cyfreithiol i oedolion sy'n wynebu risg
 - Lleihau systemau biwrocraidd hen ffasiwn ym maes asesu

Nodiadau Hwylusydd

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau manylach ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gymryd camau i atal a lleihau anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal.

Gallai'r gwasanaethau 'ataliol' hyn fod ar gael i holl boblogaeth Cymru (3 miliwn o bobl).

Cryfhau cydweithio a darparu fframwaith i integreiddio gwasanaethau allweddol a gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth.

SLEID 8: Datblygiad y Ddeddf

- Deddfwriaeth i'w diddymu:
 - Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
 - Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
 - Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004
 - Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010
 - Deddf Cymorth Gwladol 1948
 - Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968
 - Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970

Nodiadau Hwylusydd

Cyfeiriwch at y sleid flaenorol – Comisiwn y Gyfraith.

Yn 2011, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylid diddymu llawer o'r statudau gofal cymdeithasol dryslyd ac anghyson, a chyflwyno un Ddeddf yn eu lle.

Roeddynt yn argymhell diddymu neu ddiwygio mwy na 40 statud.

Roedd y Comisiwn yn argymhell un statud modern a chlr a chod ymarfer a fyddai'n braenaru'r tir ar gyfer system gofal cymdeithasol gydlynol.

Nodyn Pwysig

Mae rhai deddfau yn aros, e.e. Deddf Galluedd Meddyliol 2005, neu'n aros yn rhannol, e.e. Deddf Plant 1989.

SLEID 9: Datblygiad y Ddeddf

- Deddfwriaeth i'w diddymu:
 - Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983
 - Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986
 - Deddf y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol a Gofal Cymunedol 1990
 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001



SLEID 10: Trosolwg o'r Ddeddf

- Rhan 1** – Cyflwyniad
- Rhan 2** – Swyddogaethau Cyffredinol
- Rhan 3** – Asesu Anghenion Unigolion
- Rhan 4** – Diwallu Anghenion
- Rhan 5** – Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol
- Rhan 6** – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya
- Rhan 7** – Diogelu
- Rhan 8** – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rhan 9** – Cydweithrediad a Phartneriaeth
- Rhan 10** – Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli
- Rhan 11** – Amrywiol a Chyffredinol

Nodiadau Hwylusydd

Dywedwch wrth y gynlleidfa y byddwch chi'n mynd trwy bob rhan yn fras.

SLEID 11: Rhan 1 – Cyflwyniad

- Rhoi trosolwg o'r Ddeddf gyfan ac yn diffinio rhai o'r termau allweddol

I'w drafod

Pa effaith fydd y diffiniad o lesiant yn ei chael ar ymarfer?

Nodiadau Hwylusydd

Ystyr **llesiant** – Rhoi fel taflen (1) (tudalen 5 y Ddeddf).

Ystyr **llesiant**, o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol:

- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- sicrhau hawliau a hawlogaethau
- llesiant cymdeithasol ac economaidd
- addasrwydd llety preswyl

Ran plentyn, mae **llesiant** hefyd yn cynnwys:

- datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989

Ran oedolyn, mae **llesiant** hefyd yn cynnwys:

- rheolaeth ar fywyd pob dydd
- cymryd rhan mewn gwaith

SLEID 12: Rhan 1 – Cyflwyniad

Ystyr oedolyn, plentyn, gofalwr ac anabl

- **Oedolyn** – unrhyw un sy'n 18 oed neu drosodd
- **Plentyn** – person dan 18 oed
- **Gofalwr** – person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl
- **Mae person yn anabl** os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010

Nodiadau Hwylusydd

I'w nodi ar gyfer gofalwyr – mae Gofalwyr Cymru'n croesawu'r diffiniad newydd o **ofalwr** yn y Ddeddf gan ei fod yn dileu'r gofyniad bod rhaid i ofalwyr ddarparu "swm sylweddol o ofal yn rheolaidd".

I'w nodi – yn y Ddeddf mae'r term **unigolyn** yn cwmpasu oedolyn, plentyn, gofalwr neu berson anabl.

Mae'r Ddeddf yn symud i ffwrdd oddi wrth y "model meddygol" a geir mewn deddfwriaeth gyfredol lle defnyddiwyd iaith fel oedran, salwch a bod yn anabl. Mae'r Ddeddf yn sôn am **bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth**.

Rydych chi'n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych chi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' neu 'hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau bob dydd.

Beth yw ystyr 'sylweddol' a 'hirdymor'

Mae 'sylweddol' yn fwy na mân neu ddibwys – e.e. mae'n cymryd llawer mwy o amser na'r hyn sy'n arferol i gwblhau tasg bob dydd fel gwisgo.

Mae 'hirdymor' yn golygu 12 mis neu fwy – e.e. cyflwr anadlu sy'n datblygu yn sgîl haint ar yr ysgyfaint.

Cyflyrau sy'n gwaethgu

Cyflwr sy'n gwaethgu yw cyflwr sy'n gwaethgu dros amser. Gellir dosbarthu pobl â chyflyrau sy'n gwaethgu yn bobl anabl. Fodd bynnag, byddwch yn bodloni'r diffiniad o anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o'r diwrnod y byddwch yn cael diagnosis o HIV, canser neu sglerosis ymledol.

SLEID 13: Rhan 2 – Swyddogaethau Cyffredinol

- **Dyletswyddau hollgyffredinol** – Dyletswydd cyffredinol i hyrwyddo llesiant pobl sydd mewn angen a gofawyr
- **Canlyniadau llesiant** – Wedi’u diffinio gan Weinidogion Cymru drwy ddatganiad o ganlyniadau a chôd ymarfer
- **Trefniadau lleol** – Pwyslais ar wasanaethau ataliol a hyrwyddo cydgynhyrchu
- **Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth**

Nodiadau Hwylusydd

Dyletswyddau hollgyffredinol

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud hi’n ofynnol i unigolion sy’n ‘cyflawni swyddogaethau’ o dan y Ddeddf roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn (1991) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Canlyniadau llesiant

Yn ei adroddiad yn 2011 argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid cael côd ymarfer i ategu’r ddeddfwriaeth newydd, fel yr un sy’n ategu Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Trefniadau lleol

Mae’r Ddeddf yn creu dyletswydd strategol ac ymarferol mewn perthynas â gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i asesu i ba raddau mae angen casgliad a lefel o wasanaethau ataliol. Bydd asesiad o anghenion y boblogaeth yn bwysig i lywio a darparu sail tystiolaeth ar gyfer datblygiadau.

Un o’r darpariaethau mwyaf unigryw yn y Ddeddf yw’r gofyniad i hyrwyddo mentrau cymdeithasol / mentrau cydweithredol / y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ataliol NEU wasanaethau ataliol sy’n cynnwys yr unigolyn yn y broses o gynllunio neu gynnal y gwasanaeth.

Mae dyletswydd bellach ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth i bobl sydd mewn angen a’u gofawyr am yr hyn sydd ar gael yn yr ardal. Maen nhw angen rhoi gwybod i unigolion beth sydd ar gael, sut i gael gafaeth ar y gwasanaethau a sut i fynegi pryderon.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

SLEID 14: Rhan 3 – Asesu Anghenion Unigolion

- Bwriad sylfaenol y rhan hon o'r Ddeddf yw bod oedolion a phlant yn cael eu hasesu ar gyfer gofal a chymorth, a gofalwyr i gael eu hasesu am gymorth
- Y nod yw symleiddio'r broses asesu
- Lle bo'n briodol, gellir cyfuno asesiadau y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal

Nodiadau Hwylusydd

Mae'r ddyletswydd i asesu oedolyn sydd mewn angen fwy neu lai yr un fath ag ydyw o dan ddeddfwriaeth blaenorol (Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990).

Mae'r ddyletswydd i asesu anghenion plentyn sydd angen gofal a chymorth yn ddatblygiad cadarnhaol – nid oes dyletswydd statudol i asesu yn bodoli ar hyn o bryd. Hefyd, cymerir bod plentyn anabl angen gofal a chymorth, yn ogystal â'r cymorth a gaiff gan ei deulu.

Mae'r Ddeddf yn cyfuno'r tair deddf gofalwyr blaenorol ac yn dileu 'swm sylweddol a rheolaidd' wrth ddarparu gofal.

- Dyletswydd i gynnwys y gofalwr cymaint â phosib
- Asesiad yn cael ei ysgogi wrth i angen ymddangos

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion)



SLEID 15: Rhan 4 – Diwallu Anghenion

- Ymateb i anghenion a nodwyd
- Mae'r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith cymhwystra gan greu hawl y gellir ei gorfodi i'r unigolyn
- Mae'n rhaid i gynllun gofal a chymorth nodi'r canlyniadau personol a nodi'r ffyrdd gorau o'u cyflawni
- Mae taliadau unigonyrchol yn parhau ac mae cyfle pellach i fanteisio ar fathau eraill o ofal a chymorth

Nodiadau Hwylusydd

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu hymestyn i fathau eraill o ofal a chymorth (er enghraifft, gofal preswyl hirdymor) ac unigolion oedd wedi'u heithrio rhag derbyn taliadau uniongyrchol (er enghraifft, rhai â phroblemau cyffuriau neu alcohol). Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gofal a chymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol bellach.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)

SLEID 16: Rhan 5 – Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol

- Nodi'r amgylchiadau lle gall awdurdod lleol godi ffi am ddarparu neu drefnu gofal a / neu gymorth i unigolion
- Pan allai awdurdod lleol godi ffi am wasanaethau ataliol a darparu cymorth
- Pennu, talu a gorfodi'r ffioedd hyn

Nodiadau Hwylusydd

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol)



SLEID 17: Rhan 6 – Plant sy'n Derbynn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya

- Mae Rhan 6 yn cynnwys 11 is-ran sy'n canolbwyntio ar:
 1. Dehongli
 2. Dyletswyddau lletya
 3. Dyletswyddau – plant sy'n derbyn gofal
 4. Rheoliadau – plant sy'n derbyn gofal
 5. Cyswllt ac ymweliadau
 6. Adolygu achosion

Nodiadau Hwylusydd

Mae Rhan 6 y Ddeddf (Adranau 74-125) yn ailadrodd darpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 i raddau helaeth, sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya – yn cynnwys swyddogion adolygu annibynnol, darpariaethau Plant sy'n Gadael Gofal, llety diogel, ac ati.

Nid yw Rhan 5 o Ddeddf Plant 1989 ar amddiffyn plant wedi'i diddymu ac mae'n parhau i fod mewn grym.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbynn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya)

SLEID 18: Rhan 6 – Plant sy’n Derbyng Gofal a Phlant sy’n cael eu Lletya

7. Gadael gofal, llety a maethu
8. Llety diogel
9. Plant sy’n cael eu lletya mewn sefydliadau penodol
10. Symud plant sy’n derbyn gofal i fyw y tu allan i’r awdurdodaeth
11. Marwolaeth plentyn sy’n derbyn gofal

Nodiadau Hwylusydd

Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sy’n “derbyn gofal” a’r rhai sy’n gadael gofal.

Ailweithredu’r dyletswyddau sy’n ddyledus i’r plant hyn mewn perthynas â dyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol ynglŷn â’u lleoli; llety (yn cynnwys sicrhau bod digon o lety yn eu hardal); addysg; iechyd; cyswllt â theulu; ymweliadau annibynnol; cynhaliadau a rheoliadau am gymeradwyo gofalwyr maeth, ac ati.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 6 (Plant sy’n Derbyng Gofal a Phlant sy’n cael eu Lletya)

SLEID 19: Rhan 7 – Diogelu

- Diogelu plant, cyflwynir dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i hysbysu
- Diogelu oedolion, dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i hysbysu os allai unigolyn fod yn wynebu risg
- Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn – rhoi pŵer mynediad
- Strwythurau newydd i Fyrddau Diogelu

Nodiadau Hwylusydd

Mae diogelu yn thema a welir drwy'r Ddeddf.

Fframwaith statudol newydd i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg. Cynnwys hawl i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol wneud cais i'r llys am **Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn**. Bydd gorchymyn o'r fath yn rhoi pŵer mynediad fel bo ymarferwyr yn gallu siarad ag oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Pŵer i fynd i mewn a siarad ag oedolyn sy'n wynebu risg yn breifat ond nid ei symud oddi yno.

Dyletswyddau ar bartneriaid perthnasol i hysbysu'r awdurdod lleol pan eu bod yn amau y gallai unigolyn fod yn wynebu risg.

Diffiniad newydd – mae 'oedolion agored i niwed' nawr yn **oedolyn sy'n wynebu risg**.

Dyletswydd i hysbysu am oedolyn sy'n wynebu risg a dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol newydd i ddarparu arweiniad cenedlaethol i'r agenda ddiogelu ac i gynghori Gweinidogion ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu.

Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion newydd. Mae rheoliadau yn bennu ardaloedd y Byrddau a'r partneriaid arweiniol.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Canllawiau Statudol mewn perthynas â Rhan 7 y Ddeddf Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg

SLEID 20: Rhan 8 – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol

- Nodi swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi codau ymarfer ar gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- Darparu rhesymau i Weinidogion Cymru ymyrryd wrth gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol pan fo awdurdod lleol yn methu

Nodiadau Hwylusydd

Mae'n rhaid i awdurdod lleol benodi swyddog, a fydd yn cael ei alw'n gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn ddangos fod ganddo'r cymwyseddau sydd wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru.

Rhesymau dros ymyrryd:

- **Rheswm 1** – Mae'r awdurdod lleol wedi methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol
- **Rheswm 2** – Mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth gyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol
- **Rheswm 3** – Mae'r awdurdod lleol wedi methu, neu'n debygol o fethu, cyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol i safon ddigonol

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 8 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)

SLEID 21: Rhan 9 – Cydweithrediad a Phartneriaeth

Cydweithrediad

- Gofyn i'r awdurdod lleol hyrwyddo cydweithrediad â phartneriaid perthnasol ac eraill
- Gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am eu swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol
- Hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd

Nodiadau Hwylusydd

Dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â chyrrff partner i wella llesiant oedolion ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr ag anghenion cymorth.

Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal a chymorth gyda darpariaeth iechyd a chysylltiedig ag iechyd, gyda golwg ar wella llesiant, atal a chodi safon.

Trefniadau partneriaeth i'w pennu drwy reoliadau rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ymrwmo i drefniadau ar y cyd mewn perthynas â'u swyddogaethau ar gyfer cynnal a gweithredu gwasanaethau mabwysiadu, gan alluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu huchelgeisiau polisi ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Adran 170 Gwasanaeth Mabwysiadu: trefniadau ar y cyd – mewnosod ar ôl adran 3 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)



SLEID 22: Rhan 9 – Cydweithrediad a Phartneriaeth

Trefniadau partneriaeth

- Trefniadau partneriaeth i'w pennu drwy reoliadau rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol

Mabwysiadu

- Grymuso Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ymrwmo i drefniadau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaeth mabwysiadu

Nodiadau Hwylusydd

Dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â chyrrff partner i wella llesiant oedolion ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr ag anghenion cymorth.

Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal a chymorth gyda darpariaeth iechyd a chysylltiedig ag iechyd, gyda golwg ar wella llesiant, atal a chodi safon.

Pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ymrwmo i drefniadau ar y cyd mewn perthynas â'u swyddogaethau ar gyfer cynnal a gweithredu gwasanaethau mabwysiadu, gan alluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu huchelgeisiau polisi ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

SLEID 23: Rhan 10 – Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli

- Mae Rhan 10 o'r Ddeddf yn cynnwys tair pennod:

Pennod 1 – Cwynion a sylwadau

Pennod 2 – Cwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol preifat

Pennod 3 – Gwasanaethau eirioli

Nodiadau Hwylusydd

Hawliau newydd i gwyno am wasanaethau cymdeithasol a gofal lliniarol preifat. Mae pobl yng Nghymru sy'n ariannu eu gofal cymdeithasol eu hunain neu sy'n derbyn gofal lliniarol yn gallu gwneud cwynion am y gwasanaethau hynny i Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o 1 Tachwedd 2014 ymlaen.

Mae'r Ddeddf yn darparu rheoliadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu gwasanaethau eirioli ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth (boed yr anghenion hynny'n cael eu diwallu gan awdurdod lleol ai peidio).

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)

SLEID 24: Rhan 11– Amrywiol a Chyffredinol

- Amrywiol
 - Ymchwil a darparu gwybodaeth
 - Unigolion mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth
 - Methiant darparwr
- Materion atodol
 - Adennill costau rhwng awdurdodau lleol
 - Preswylfa arferol

Nodiadau Hwylusydd

Preswylfa arferol yw un o'r prif brofion sy'n rhaid ei brofi i bennu a oes rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion cymwys unigolyn. Mae'n hafnodol, felly, bod awdurdodau lleol yn pennu, ar yr adeg briodol, a yw unigolyn yn preswylfio fel arfer yn eu hardal, ac a fydd dyletswyddau o'r fath yn codi.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth yng Nghymru; ac anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth yng Nghymru a Lloegr.

Yr awdurdod lleol lle mae'r carchar wedi'i leoli sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion mewn carchar.

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

Côd Ymarfer Rhan 11 (Amrywiol a Chyffredinol)

SLEID 25: Rhan 11 – Amrywiol a Chyffredinol

- Cyffredinol
 - Gorchmynion a rheoliadau
 - Dehongli cyffredinol
- Atodlen 1 – Cyfraniadau tuag at gynhaliaeth plant sy'n derbyn gofal
- Atodlen 2 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- Atodlen 3 – Ymchwilio i gwynion ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat



SLEID 26: Effaith ar sefydliadau partner

- Iechyd
- Y sector annibynnol
- Y sector gwirfoddol
- Eraill e.e. gwasanaethau cymunedol, grwpiau cymorth, tai, budd-daliadau, hamdden

Nodiadau Hwylusydd

Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal a chymorth gyda darpariaeth iechyd a chysylltiedig ag iechyd, gyda golwg ar wella llesiant, atal a chodi safon.

Trefniadau partneriaeth i'w pennu drwy reoliadau rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.



SLEID 27: Effaith ar waith bob dydd

- Y newid diwylliannol tuag at yr ymyrraeth briodol ofynnol
- Llai o bwyslais ar ffyrdd penodedig o wneud pethau
- Ymyrryd yn gynt ym mywydau pobl a hyrwyddo strategaethau ataliol
- Helpu pobl i sicrhau canlyniadau dymunol, yn hytrach na asesu eu haddasrwydd i dderbyn gwasanaethau



SLEID 28: Effaith ar waith bob dydd

- Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Ddeddf hon:
 - I'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny
 - Rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn
 - Rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith)

Nodiadau Hwylusydd

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Rhan 2 (6).

SLEID 29: Effaith ar waith bob dydd

- Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Ddeddf hon:
 - Roi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm



SLEID 30: Effaith ar unigolion

- Bydd gweithwyr proffesiynol yn gofyn 'pa fath o fywyd dw i eisiau a beth sydd angen ei newid er mwyn i hyn ddigwydd?'
- Mae gwasanaethau ataliol ar gael i'm helpu i osgoi gwasanaethau a reolir
- Byddaf yn gallu gwneud fy mhenderfyniadau fy hun, cymryd cyfrifoldeb a rhannu'r risg
- Llwyddiant fyddai cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i mi ac mae'n cael ei fesur dros amser

Nodiadau Hwylusydd

Dewch â'r cyflwyniad i ben drwy atgoffa'r cyfranogwr am nodau'r ddeddfwriaeth i unigolion a'r newid diwylliannol i ffordd newydd o weithio. Pwysleiswch y neges "gwneud pethau'n wahanol", newid y system ofal a chymorth, ac atal ac ymyrryd yn gynnar.



ADRAN 04

SYNIADAU AR GYFER GWAITH GRŴP

Taflen 1

Gweithgaredd – Trafodaeth

Pa effaith fydd y diffiniad o lesiant yn ei chael ar ymarfer?

Ystyr **lesiant**, o ran person, yw lesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol:


- (a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a lesiant emosiynol
- (b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- (c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- (ch) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- (d) cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- (dd) sicrhau hawliau a hawlogaethau
- (e) lesiant cymdeithasol ac economaidd
- (f) addasrwydd llety preswyl

O ran plentyn, mae **lesiant** hefyd yn cynnwys:

- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- (b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989

O ran oedolyn, mae **lesiant** hefyd yn cynnwys:

- (a) rheolaeth ar fywyd pob dydd
- (b) cymryd rhan mewn gwaith



Taflen 2

Gweithgaredd – Trafodaeth

Goblygiadau ar gyfer ymarfer

Pa newidiadau sydd angen eu gwneud i ymarfer cyfredol? Beth sydd eisoes ar gael?

Beth yw ein hanghenion hyfforddi?

Pa syniadau sydd gennym ar gyfer hyfforddiant manwl? Pa grwpiau eraill sydd angen gwybodaeth neu hyfforddiant? Sut mae lledaenu'r wybodaeth i eraill?



Syniadau ar gyfer trafod

Trafodaeth 1 – Diffiniad o ofalwr – Rhan 1 (3)

Mae tad Jim yn dod allan o'r ysbyty ar ôl cael triniaeth ar ei glun wedi iddo syrthio. Dyw Jim ddim yn siŵr pa gymorth fydd yn rhaid iddo ei roi ond mae'n credu y bydd yn rhaid iddo helpu ei dad i siopa a mynd ag ef i apwyntiadau ac ati. Dyw Jim ddim yn siŵr am faint y bydd ei dad angen y cymorth ychwanegol hwn.

O dan y Ddeddf, fyddech chi'n ystyried bod Jim yn ofalwr a pham? Pryd yn union fyddai Jim yn cael ei ystyried yn ofalwr sydd angen cymorth?

Beth ddywed y Ddeddf...

3 Ystyr "gofalwr"

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.
- (4) Ystyr "gofalwr" yw person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl; ond gweler isadrannau (7) ac (8) ac adran 187(1).
- (7) Nid yw person yn ofalwr at ddibenion y Ddeddf hon os yw'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal:
 - (a) o dan gontract neu yn rhinwedd contract, neu
 - (b) fel gwaith gwirfoddol
- (8) Ond caiff awdurdod lleol drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf hon os yw'r awdurdod o'r farn bod natur y berthynas rhwng y person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal a'r person y mae'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu, neu i'w ddarparu, iddo yn golygu y byddai'n briodol i'r cyntaf gael ei drin fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny.

Trafodaeth 2 – Diffiniad o lesiant – Rhan 1 (2)

Mae Rhys yn 91 oed ac wedi bod angen mwy o gymorth i fyw bob dydd yn sgîl salwch diweddar. Mae'n berson prysur iawn ac mae cadw cysylltiad â'r byd tu allan yn bwysig iddo. Beth fydddech chi'n ei ystyried o ran ei lesiant?

Beth ddywed y Ddeddf...

2 Ystyr "llesiant"

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddiben y Ddeddf hon.
- (2) Ystyr **llesiant**, o ran y person, yw lesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol:
 - (a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a lesiant emosiynol
 - (b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
 - (c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
 - (ch) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
 - (d) cyfraniad a wneir at y gymdeithas
 - (dd) sicrhau hawliau a hawlogaethau
 - (e) lesiant cymdeithasol ac economaidd
 - (f) addasrwydd llety preswyl
- (3) O ran plentyn, mae **llesiant** hefyd yn cynnwys:
 - (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
 - (b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989
- (4) O ran oedolyn, mae **llesiant** hefyd yn cynnwys:
 - (a) rheolaeth ar fywyd pob dydd
 - (b) cymryd rhan mewn gwaith



Trafodaeth 3 – Dyletswyddau cyffredinol – Rhan 2 (6)

Mae Claire yn wirfoddolwr sy'n cynorthwyo teuluoedd gyda sgiliau rhianta. Beth fyddai dyletswyddau hollgyffredinol Claire wrth ymwneud â holl aelodau'r teulu o dan Ran 2 – dyletswyddau cyffredinol?

Beth ddywed y Ddeddf...

6 Dyletswyddau hollgyffredinol

(2) Rhaid i'r person:

- (a) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny
- (b) rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn
- (c) rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)
- (ch) rhoi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm

(3) Rhaid i berson sy'n arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn sy'n dod o fewn isadran (1)(a), (b) neu (c), yn ogystal, roi sylw i:

- (a) pwysigrwydd dechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn, a
- (b) pwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo'n bosibl

(4) Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn isadran (1)(a), (b) neu (c), yn ogystal:

- (a) rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, a
- (b) pan fo'r plentyn o dan 16 oed, ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae gwneud hynny:
 - (i) yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, a
 - (ii) yn rhesymol ymarferol



Trafodaeth 4 – Dod o hyd i'r ateb cywir – Rhan 3 (19)

Mae Flora wedi ymddeol yn gynnar yn ddiweddar ar ôl cael strôc. Mae wedi gwella'n dda ond wedi bod yn teimlo'n isel oherwydd ei bod yn unig ac wedi colli hyder. Cyn iddi gael strôc roedd Flora'n mwynhau llawer o weithgareddau awyr agored. Beth fyddai angen i chi ei ystyried wrth gynnal asesiad o angen o dan y Ddeddf?

Beth ddywed y Ddeddf...

19 Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth

4) Wrth wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol:

- (a) ceisio canfod y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu sicrhau mewn bywyd o ddydd i ddydd,
- (b) asesu a allai darparu:
 - (i) gofal a chymorth,
 - (ii) gwasanaethau ataliol, neu
 - (iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir gan yr asesiad

Trafodaeth 5 – Dod o hyd i'r ateb cywir – Rhan 3 (21)

Bu farw mam Josh, sy'n 16 oed, chwe mis yn ôl. Mae Josh yn teimlo'n unig ac yn cael trafferth i ymdopi â'i golled. Beth sydd angen i chi ei ystyried wrth gynnal asesiad o angen o dan y Ddeddf?

Beth ddywed y Ddeddf...

21 Dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth

4) Wrth wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol:

- (a) asesu anghenion datblygiadol y plentyn
- (b) ceisio canfod y canlyniadau:
 - (i) y mae'r plentyn yn dymuno eu sicrhau, i'r graddau y mae'n barnu ei bod yn briodol o roi sylw i oedran a dealltwriaeth y plentyn
 - (ii) y mae'r personau a chanddynt gyfrifoldeb riant dros y plentyn yn dymuno eu sicrhau mewn perthynas â'r plentyn, i'r graddau y mae'n barnu ei bod yn briodol o roi sylw i'r angen am hyrwyddo llesiant y plentyn, a
 - (iii) y mae personau a bennir mewn rheoliadau (os oes rhai) yn dymuno eu sicrhau mewn perthynas â'r plentyn
- (c) asesu a allai darparu:
 - (i) gofal a chymorth
 - (ii) gwasanaethau ataliol, neu
 - (iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny

Trafodaeth 6 – Taliadau Uniongyrchol – Rhan 4 (50)

Mae Rhian wedi cael asesiad sy'n nodi ei bod angen gofal a chymorth. Sut y gellid cynorthwyo Rhian i ystyried taliadau uniongyrchol fel ffordd o gyflawni ei chanlyniadau?

Beth ddywed y Ddeddf...

Newidiadau allweddol

Mae'r Ddeddf yn gweld parhad o daliadau uniongyrchol fel ffordd o gyflawni canlyniadau llesiant pobl ond mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i ddyfarnu pa ofal a chymorth sy'n gywir iddynt hwy, yn eu barn hwy. Hefyd, mae'r Ddeddf yn sicrhau estyn y taliadau uniongyrchol sydd ar gael ar gyfer mathau eraill o ofal a chymorth (er enghraifft, ar gyfer gofal preswyl hirdymor) ac i unigolion sydd wedi eu heithrio'n flaenorol rhag cael taliadau uniongyrchol (er enghraifft, y rhai â phroblemau cyffuriau neu alcohol).

Nodau

O dan y Ddeddf ceir ysgogiad i roi llais a rheolaeth i bobl dros y ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae hyn yn adeiladu ar eu dulliau cymorth presennol o deulu, ffrindiau ac ati. Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gweld fel galluogwr i gyflawni'r nod hwn lle y mae unigolion am gael mwy o lais a rheolaeth dros sut y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu.

O dan y Ddeddf rydym yn ceisio:

- Cynnal gallu awdurdodau lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn neu blentyn; ac anghenion cymorth gofalwr
- Gwneud hyn mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i benderfynu ar y gofal a'r cymorth y maent o'r farn sy'n gywir iddynt hwy i gyflawni canlyniadau personol
- Cynnal gallu person i gael taliad uniongyrchol â chymorth lle y mae'n methu ei reoli, neu'n amharod i'w reoli
- Annog hyblygrwydd ac arloesedd mewn dulliau o ddarparu gofal a chymorth, er enghraifft drwy fentrau cydweithredol
- Annog canfyddiad bod taliadau uniongyrchol yn un o amrywiaeth o ffyrdd y gellir diwallu anghenion. Dylai'r sgwrs â rhywun ynghylch a yw taliad uniongyrchol yn iawn iddynt hwy ddigwydd ar y dechrau yn ystod y broses asesu pan fydd opsiynau'n cael eu trafod yn hytrach nag fel ystyriaeth eilaidd

Trafodaeth 7 – Dyletswydd i hysbysu am blant – Rhan 7 (130)

Mae Sarah yn weithiwr sector gwirfoddol sy'n cynorthwyo plant ag anableddau dysgu i fanteisio ar wasanaethau hamdden. Mae wedi sylwi bod gan blentyn y mae hi'n ei gynorthwyo i fynd i nofio anafiadau corfforol nad ydynt yn gyson â'r esboniadau a roddwyd. O ystyried y Ddeddf, a oes dyletswydd yma i ymateb a pham?

Beth ddywed y Ddeddf...

Diogelu plant

Mewn perthynas â phlant, cyflwynir dyletswydd i adrodd ar gyfer partneriaid perthnasol (yr awdurdod lleol, yr heddlu, darparwyr gwasanaethau prawf, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG), ac mae'n ymestyn i dimau troseddwy'r ifainc ar gyfer adrodd yn benodol am blant sy'n wynebu risg. Bydd pwyntiau cyswllt clir rhwng y partneriaid perthnasol yn ardal y Bwrdd Diogelu a rhwng partneriaid perthnasol ac awdurdodau lleol mewn ardaloedd Byrddau Diogelu eraill.

130 Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg

- (1) Os oes gan bartner perthnasol awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod plentyn yn blentyn sy'n wynebu risg, a'i bod yn ymddangos bod y plentyn hwnnw o fewn ardal yr awdurdod, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol am y ffaith honno.
- (2) Os yw'n ymddangos bod y plentyn, y mae gan y partner perthnasol sail resymol dros gredu bod y plentyn hwnnw yn blentyn sy'n wynebu risg, o fewn ardal awdurdod lleol ac eithrio un y mae'n bartner perthnasol iddo, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.



Trafodaeth 8 – Dyletswydd i hysbysu am oedolion – Rhan 7 (128)

Mae Siân, sy'n gwirfoddoli mewn clwb cinio, wedi sylwi bod ymddygiad Mrs How wedi newid yn ddiweddar a'i bod hi'n cael trafferth rheoli ei harian. Mae Mrs How yn ymddiried ynddi ac yn dweud bod gweithiwr gofal cartref wedi bod yn benthyg arian ganddi ac wedi methu talu'r arian yn ôl eto. Beth sy'n ddyletswydd ar y gwirfoddolwr i hysbysu rhywun amdano o dan y Ddeddf.

Beth ddywed y Ddeddf...

Diogelu oedolion – dyletswydd i adrodd

Mewn perthynas ag oedolion, cyflwynir dyletswydd lle y mae'n rhaid i bartner perthnasol adrodd i awdurdod lleol os bydd ganddo sail resymol dros gredu bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r rhai ar gyfer plant o ran bydd cyfathrebu clir rhwng y partneriaid perthnasol yn ardal y Bwrdd Diogelu ac mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill y tu allan i ardal y Bwrdd Diogelu.

128 Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg

- (1) Os oes gan bartner perthnasol awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg, a'i bod yn ymddangos bod y person hwnnw o fewn ardal yr awdurdod, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol am y ffaith honno.
- (2) Os yw'n ymddangos bod y person, y mae gan y partner perthnasol sail resymol dros gredu bod y person hwnnw yn oedolyn sy'n wynebu risg, o fewn ardal awdurdod lleol ac eithrio un y mae'n bartner perthnasol iddo, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.
- (3) Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal ar yn oedolyn sy'n wynebu risg ar unrhyw adeg a'i fod yn byw neu'n bwriadu byw yn ardal yr awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), rhaid iddo hysbysu'r awdurdod arall hwnnw.
- (4) At ddiben yr adran hon mae partner perthnasol awdurdod lleol yn berson sy'n bartner perthnasol yr awdurdod at ddibenion Adran 162.

ADRAN 05

SYNIADAU

AR GYFER PECYN

CYFRANOGWR

Syniadau ar gyfer pecyn cyfranogwr

Awgrymir darparu pecyn o ddeunyddiau i bob cyfranogwr a fydd yn cynnwys:

- Amcanion yr hyfforddiant a'r deilliannau dysgu
- Rhaglen y gweithdy
- Taflen PowerPoint gyda lle ar gyfer eu nodiadau eu hunain
- Taflen 1 – diffiniad o lesiant
- Taflen 2 – goblygiadau ar gyfer ymarfer
- Unrhyw waith grŵp neu weithgaredd arall a ddefnyddiwyd
- Taflenni gwybodaeth perthnasol:
 - Gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - Asesu a diwallu anghenion
 - Asesiad a chymorth i ofalwyr
 - Cynlluniau gofal a chymorth
 - Mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector
 - Prosesau craidd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
 - Goblygiadau'r Ddeddf i'r GIG yng Nghymru
- Gwybodaeth leol / ranbarthol
- Dolenni defnyddiol
- Ffurflen werthuso a chynllun gweithredu

ADRAN 06

GWERTHUSO
A CHYNLLUN
GWEITHREDU
PERSONOL

Gwerthuso a chynllun gweithredu personol

Beth yw'r tri pheth pwysicaf a ddysgoch heddiw?

1.

2.

3.

Sut ydych chi'n mynd i roi'r hyn a ddysgoch ar waith?

Pa gymorth pellach fyddwch chi ei angen?

Enw:

Gweithle:

Teitl swydd:

E-bost:

Cynlluniwch i ddechrau yfory drwy rannu'r cynllun hwn a chytuno arno gyda'ch rheolwr neu oruchwyliwr.

ADRAN 07

DEUNYDDIAU
YCHWANEGOL

Dolenni defnyddiol

Hyb Gwybodaeth a Dysgu

www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/

Y Ddeddf

www.cgymru.org.uk/y-ddeddf/

Codau ymarfer ac arweiniad statudol

www.cgymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol/

Rheoliadau

www.cgymru.org.uk/rheoliadau-a-codau/

Adnoddau dysgu

www.cgymru.org.uk/adnoddau-dysgu-1/

Newyddion

www.cgymru.org.uk/news-1/

Gwybodaeth i staff

Cefndir

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n fframwaith newydd sy'n dwyn deddfau gwasanaethau cymdeithasol ynghyd ac yn eu moderneiddio.

Yn y gorffennol, darparwyd gwasanaethau cymdeithasol o dan wahanol ddarnau digyswllt o ddeddfwriaeth, e.e.

- Adran 47 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol a Gofal Cymunedol 1990
- Adran 17 o Ddeddf Plant 1989
- Adran 2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970
- Adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948

Nawr, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwyn y rhain ynghyd mewn un lle.

Egwyddorion sylfaenol

- **Pobl:** Rhoi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal drwy roi llais cryfach iddynt
- **Llesiant:** Cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain, a mesur pa mor llwyddiannus yw hyn
- **Ymyrryd yn gynnar:** Gwasanaethau ataliol yn y gymuned rhag i anghenion ddwysáu
- **Cydweithio:** Gwaith partneriaeth cryfach rhwng asiantaethau a sefydliadau, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd

Sut mae'n gweithio

Mae'r fframwaith cyfreithiol newydd wedi'i rannu'n dair rhan:

- 1 **Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:** Un deddf yn pennu pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrrff eraill
- 2 **Rheoliadau:** Is-ddeddfwriaeth, lle mae'r Ddeddf angen mwy o fanylder
- 3 **Codau ymarfer:** Canllawiau gyda grym y gyfraith, sy'n egluro sut y dylai pobl a sefydliadau weithio o fewn y fframwaith newydd

Cynnwys y Ddeddf

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys 11 rhan:

- 1 Cyflwyniad
- 2 Swyddogaethau Cyffredinol
- 3 Asesu Anghenion Unigolion
- 4 Diwallu Anghenion
- 5 Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol
- 6 Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya
- 7 Diogelu
- 8 Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
- 9 Cydweithrediad a Phartneriaeth
- 10 Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli
- 11 Amrywiol a Chyffredinol

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg byr o beth mae pob rhan yn ei gynnwys.

RHAN 1: CYFLWYNIAD

Mae rhai o'r diffiniadau'n debyg i'r hyn oedd yn bodoli cynt, e.e.:

- Oedolyn: unrhyw un sy'n 18 oed neu drosodd
- Plentyn: person dan 18 oed
- Gofalwr: person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl
- Anabl: fel y'i diffiniwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (rheoliadau i ddarparu manylion)

Mae rhai diffiniadau'n newydd i raddau helaeth, e.e. "Llesiant":

- Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety preswyl

RHAN 2: SWYDDOGAETHAU CYFFREDINOL

Mae'r rhan hon yn nodi'n fras beth mae'r Ddeddf yn ceisio ei wneud. Mae'n grwpio'r rhain o dan dri label:

Dyletswyddau hollgyffredinol

Mae'r rhain yn cwmpasu tri maes:

- Dyletswydd llesiant. Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio o dan y Ddeddf hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth
- Dyletswyddau hollgyffredinol eraill (cyffredinol). Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio o dan y Ddeddf ganfod dymuniadau a theimladau'r unigolyn; parchu ei urddas; rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn; ei helpu i wneud ei benderfyniadau ei hun; hyrwyddo ei annibyniaeth; ac, wrth weithio gyda phlant, hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, pan fo gwneud hynny'n ddiogel
- Dyletswyddau hollgyffredinol eraill (Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig). Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio o dan y Ddeddf roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Canlyniadau llesiant

Mae'r rhan hon yn dweud fod gan Lywodraeth Cymru dair blynedd i ddiffinio union ystyr "sicrhau canlyniadau llesiant" a sut mae'n mynd i wirio bod hynny'n digwydd.

Trefniadau lleol

Mae'r rhan hon yn dweud fod rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gydweithio i fapio anghenion yn eu hardaloedd ac i asesu pa wasanaethau sydd eu hangen i'w diwallu. Dywed fod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau gwasanaethau ataliol effeithiol; hyrwyddo'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol; a darparu gwybodaeth a chyngor. Mae'n rhaid iddynt hefyd gadw cofrestrau o bobl anabl neu bobl sydd â nam ar eu synhwyrâu.

RHAN 3: ASESU ANGHENION UNIGOLION

Mae'r rhan hon yn datgan pryd mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnig asesiad o angen, a beth sy'n digwydd os yw'r unigolyn yn gwrthod cael asesiad. Mae'n grwpio'r rhain o dan bedwar label:

Asesu oedolion

Mae'r ffocws ar yr angen am ofal, cymorth, gwasanaethau ataliol neu wybodaeth.

Asesu plant

Mae'n gwahaniaethu rhwng asesiadau i blant o dan a thros 16 oed.

Asesu gofalwyr

Mae'n cynnwys pa anghenion a allai fod gan y gofalwr yn y dyfodol.

Materion atodol

Mae'r rhan hon yn ymwneud yn bennaf â sut y gellir cyfuno gwahanol fathau o asesiadau.

RHAN 4: DIWALLU ANGHENION

Mae'r rhan hon wedi'i grwpio dan wyth label:

Penderfynu beth i'w wneud ar ôl asesiad o anghenion

Trafodaeth fras ar feini prawf cymhwysra a beth sy'n rhaid ei ddarparu.

Diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion

Mae'n nodi tri amod, yn seiliedig ar ble maent yn byw; a ydynt yn gymwys; a ellir codi tâl arnynt am y gwasanaethau.

Diwallu anghenion plant am ofal a chymorth

Mae'n nodi dau amod: ble maent yn byw; ac a ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra (neu angen cael eu hamddiffyn).

Diwallu anghenion gofalwr am gymorth

Yn ogystal â gosod amodau, mae'r rhan hon yn sôn yn fanylach am amgylchiadau ariannol (oedolyn sy'n gofalu); a phryd mae angen darparu cymorth i blentyn sy'n gofalu.

Diwallu anghenion: eithriadau a chyfyngiadau

Mae'r rhan hon yn amlinellu rhai amgylchiadau arbennig, fel rheoli mewnfudo, cyfrifoldebau iechyd, anghenion tai, ac achosion lle na all awdurdodau lleol wneud taliadau.

Taliadau uniongyrchol

Mae'r rhan hon yn nodi'n fras sut mae gwneud taliadau i unigolyn fel y gall brynu ei wasanaethau ei hun, a sut y gellir defnyddio hyn i dalu am wasanaethau ar gyfer plentyn neu ofalwr.

Cynlluniau

Mae'r rhan hon yn dweud bod rhaid i unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau gael cynllun cymorth.

Materion atodol

Mae'r rhan hon yn disgrifio sut mae cynlluniau gofal unigolyn yn ei ddilyn os yw'n symud i awdurdod arall; beth i'w wneud os yw am gael math penodol o lety; a sut i ddiogelu ei eiddo os yw'n derbyn gofal oddi cartref.

RHAN 5: CODI FFI OEDD AC ASESIADAU ARIANNOL

Mae'r rhan hon wedi'i grwpio o dan bedwar label:

Codi ffioedd am ddiwallu anghenion

Nodi amgylchiadau a rheoliadau sy'n ymwneud â phŵer awdurdod lleol i godi ffioedd am wasanaethau.

Codi ffi am wasanaethau ataliol a chynhorthwy

Gellir codi ffi am rai gwasanaethau ataliol. Ond ni ellir codi ffi am eraill (e.e. ffi ar blant).

Gorfodi dyledion

Disgrifio sut y gall yr awdurdod lleol adennill dyledion a ffioedd.

Adolygiadau

Mae'n rhaid cael proses adolygu ar gyfer rheoliadau sy'n ymwneud â ffioedd, ac achosion unigol.

RHAN 6: PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

Mae'r rhan hon yn disgrifio'r dyletswyddau cyffredinol sydd gan awdurdod lleol tuag at blant sydd yn ei ofal, ac yn braenaru'r ffordd ar gyfer set newydd o reoliadau ynglŷn â'i gyfrifoldebau.

RHAN 7: DIOGELU

Mae'r rhan hon wedi'i grwpio o dan bum label:

Oedolion sy'n wynebu risg

Term newydd sy'n disodli oedolyn agored i niwed. Mae hyn yn cyflwyno'r pŵer i ddefnyddio gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo newydd i oedolion.

Plant sy'n wynebu risg

Mae'r rhan hon yn cyflwyno gofyniad i hysbysu am blant sy'n wynebu risg ac yn cyfeirio at adran gyfredol Deddf Plant 1989, nad yw wedi'i diddymu.

Canllawiau

Cyhoeddwyd canllawiau newydd ar ddiogelu ac mae'n rhaid dilyn y rhain.

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cyhoeddwyd rheoliadau sy'n nodi sut y bydd y bwrdd cenedlaethol yn cael ei sefydlu.

Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion

Mae rheoliadau newydd yn egluro sut y bydd y rhain yn gweithredu o hyn allan.

RHAN 8: SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae'r rhan hon wedi'i grwpio o dan dri label:

Awdurdodau lleol

Mae'r rhan hon yn cyfeirio at atodlen ar wahân (Atodlen 2), sy'n dangos sut mae deddfau cyfredol yn dal i ddweud wrth awdurdodau lleol beth mae'n rhaid iddynt ei wneud.

Codau

Mae'r rhan hon yn cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru'n dyroddi gwahanol godau ymarfer ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Ymyriadau gan Lywodraeth Cymru

Mae'r rhan hon yn rhybuddio y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd os yw awdurdod lleol yn cael ei weld yn methu.

RHAN 9: CYDWEITHREDIAD A PHARTNERIAETH

Mae'r rhan hon wedi'i grwpio o dan dri label:

Cydweithrediad

Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol "hyrwyddo" trefniadau cydweithredu gyda chyrff penodol (e.e. yr heddlu, awdurdodau lleol eraill, y gwasanaeth prawf, iechyd) er mwyn cynorthwyo oedolion a phlant cymwys.

Trefniadau partneriaeth

Mae'r rhan hon yn datgan bod rheoliadau'n egluro pa drefniadau partneriaeth sydd eu hangen.

Mabwysiadu

Mae'r rhan hon yn mewnosod adran newydd "trefniadau ar y cyd" yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

RHAN 10: CWYNION, SYLWADAU A GWASANAETHAU EIRIOLI

Mae'r rhan hon ychydig yn wahanol gan ei bod wedi'i threfnu'n dair "pennod":

Pennod 1

Nodi y bydd rheoliadau'n cael eu cyhoeddi ar gwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol.

Pennod 2

Diwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol ar gwynion ynghylch gofal cymdeithasol preifat a gofal lliniarol.

Pennod 3

Nodi y bydd rheoliadau'n datgan pryd mae'n rhaid i awdurdod ddarparu gwasanaethau eirioli, pryd na ddylent, a sut y dylent roi cyhoeddusrwydd iddynt.

RHAN 11: AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Mae'r rhan hon yn ychwanegu at, ac yn egluro adrannau amrywiol mewn rhannau eraill o'r Ddeddf.

ATODLENNI

Mae yna dair "atodlen", sy'n atodiadau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y Ddeddf gyda mwy o fanylion am faterion penodol.

Prosesau craidd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Beth fydd y Ddeddf yn ei wneud?

Nod y Ddeddf yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer nodau polisi Llywodraeth Cymru ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn cynnwys:

- **Cynnal gwasanaethau cymdeithasol integredig:** Gwellu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt o fewn fframwaith sy'n cynnwys oedolion, yn ogystal â phlant, a'u gofalwyr
- **Cynyddu cysondeb gwasanaethau:** Gwellu mynediad i wasanaethau cymdeithasol, ynghyd â'r ddarpariaeth, ledled Cymru
- **Cydgrynhai deddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru:** Symleiddio ac egluro dyletswyddau mewn perthynas â phlant, oedolion a gofalwyr i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithlon, a lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ymdopi â'r fframwaith cyfreithiol presennol
- **Grymuso defnyddwyr gwasanaethau:** Rhoi llais cryfach iddynt, a mwy o reolaeth dros wasanaethau
- **Cryfhau trefniadau diogelu ac amddiffyn oedolion a phlant:** Cynnwys diogelu fel thema ledled y Ddeddf, a chyflwyno dyletswyddau newydd a strwythurau arwain cenedlaethol
- **Hybu gwaith partneriaeth mewn gofal cymdeithasol:** Ehangu'r cydweithredu rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys darparwyr y GIG. Mae ddarpariaethau cydweithredu yn y Ddeddf hefyd yn hwyluso'r broses o ddiwygio gwasanaethau mabwysiadu
- **Gwellu rôl ataliol awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, a phennu dyletswyddau llesiant cyffredinol iddynt hwy a'u partneriaid:** Osgoi neu oedi'r angen am ofal a chymorth, a hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr sydd angen cymorth

Beth fydd y Ddeddf yn ei olygu ar gyfer gwaith cymdeithasol?

O ganlyniad i'r Ddeddf, bydd gwaith cymdeithasol yng Nghymru yn:

- Ymwneud â chydweithio agos rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r rhai sydd angen gofal a chymorth er mwyn nodi dulliau ar y cyd o gefnogi unigolion drwy gamau gwahanol o angen
- Lleihau'r ddibyniaeth ar ddulliau rhagnodol wedi'u ffurfioli a rhoi mwy o bwyslais ar farn broffesiynol
- Cynnwys cydweithio agosach ag amrywiaeth eang o sefydliadau ffurfiol ac anffurfiol ac unigolion er mwyn nodi a dod o hyd i ymatebion i angen
- Parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Pa sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen?

Mae'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ganolog i ymarfer gwaith cymdeithasol ar hyn o bryd ac sy'n cael eu diffinio gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yn parhau i fod yn berthnasol, ac yn wir mae'n bosibl y byddant yn dod yn bwysicach yng nghyd-destun y Ddeddf, sy'n pwysleisio pwysigrwydd barn broffesiynol y gweithiwr cymdeithasol. Rhoddir rhagor o bwyslais ar:

- Y gallu i gydweithio ag unigolion a'u teuluoedd, gan eu galluogi i ganfod atebion i'w problemau
- Y gallu i ddeall a datblygu ymatebion cymunedol i anghenion unigolion, yn hytrach nag asesu ar gyfer gwasanaethau
- Gwybodaeth am dystiolaeth ymchwil yn ymwneud ag ymyriadau effeithiol mewn gofal cymdeithasol
- Y gallu i gydweithio'n effeithiol â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill
- Y gallu i nodi canlyniadau dymunol ar gyfer unigolion ac asesu i ba raddau y maent yn cael eu cyflawni

Pa newidiadau i'r cyd-destun gwaith a fydd yn deillio o'r Ddeddf?

Dylai'r Ddeddf newid gwaith gweithwyr cymdeithasol fel a ganlyn:

- Dirprwyo mwy o dasgau a chynorthwyo staff nad ydynt yn staff gwaith cymdeithasol
- Llais o bwyslais ar ddulliau gweithredu rhagnodedig
- Rhagor o atebolrwydd am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r broses o wneud penderfyniadau
- Ymyrryd yn gynt ym mywydau pobl sydd angen cymorth
- Gweithio i amrywiaeth ehangach o gyflogwyr mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau
- Helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol yn hytrach nag asesu addasrwydd ar gyfer gwasanaethau

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu ar gyfer addysgu a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol?

Er y bydd y rhan fwyaf o hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn parhau i fod yn berthnasol, mae'r newidiadau canlynol yn debygol:

- Rhagor o bwyslais ar ddysgu parhaus gydol gyrfa
- Pwyslais pellach ar waith cymdeithasol cyffredinol – tîm o amgylch y teulu
- Rhagor o arbenigo a gwybodaeth fanwl
- Canolbwyntio ar ddysgu hunan-gyfeiriedig a chynorthwyo dysgu cymheiriaid



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Beth yw'r gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) newydd?

O dan y Ddeddf rhaid i bob awdurdod lleol – gyda chymorth ei bartneriaid yn y bwrdd iechyd lleol - sicrhau y darperir gwasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl yn ymwneud â gofal a chymorth yn eu hardal (gan gynnwys cymorth i ofalwyr) a (lle y bo'n briodol) gymorth i gael gafael arnynt.

Cael y wybodaeth a'r cynghor iawn yw'r cam cyntaf i bobl sy'n chwilio am lefel benodol o ofal a chymorth i'w helpu i sicrhau'r lles gorau posibl. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn a pha mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio yn hanfodol.

Rhaid i'r gwasanaeth IAA alluogi dinasyddion (oedolion, plant a gofalwyr) i gynllunio ar gyfer diwallu eu hanghenion gofal a chymorth nawr, ac yn y dyfodol.

Beth fydd y gwasanaeth yn ei gynnig?

Er y bydd pob awdurdod lleol (gyda chymorth gan ei BILI a sefydliadau lleol yn y trydydd sector) yn datblygu ei ddarpariaeth IAA ei hun i wasanaethu ei ardal, bydd sawl elfen gyffredin:

- Bydd yn gweithredu fel y **pwytyn mynediad cyntaf** a bydd yn ddigon hyblyg ac ymatebol i ddelio ag ymholiadau yn uniongyrchol gan y dinesydd ac ymholiadau / atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol.
- Bydd yn rhoi **gwybodaeth** er mwyn helpu pobl i ddeall sut mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yn eu hardal; y mathau o gymorth / gwasanaethau sydd ar gael; sut y gallant fanteisio ar y rhain; a sut i godi pryderon am lesiant pobl yr ymddengys bod ganddynt anghenion gofal a chymorth.
- Bydd y gwasanaeth hwn ar **gael i bob dinesydd** p'un a ydynt yn debygol o fod yn ariannu eu hunain neu'n dibynnu ar rywfaent o arian gan yr awdurdod lleol am eu gofal a'u cymorth.

- Bydd yn galluogi dinasyddion i ddechrau **trafodaeth ar eu hanghenion gofal a chymorth** eu hunain a nodi'r hyn y maent am ei gyflawni (o ran eu lles). Bydd yn cynnig asesiad llinell gyntaf ac ymateb sy'n gymesur ag anghenion y dinesydd.
- Bydd yn **cyflwyno opsiynau ac yn cyfeirio dinasyddion** at ofal a chymorth priodol, gan gynnwys cynghor ar yr amrywiaeth o wasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned.
- Lle y bo'n briodol, bydd yr IAA hefyd yn **helpu pobl mewn ffordd weithredol** i gael gafael ar wasanaethau e.e. trefnu apwyntiadau neu gomisiynu gwasanaethau ar eu rhan. Gall hyn ymestyn hefyd i ddarparu rhywfaint o reolaeth dros y pecyn gofal.
- Bydd yn cael ei ddarparu mewn ffordd hygyrch / dealladwy i unigolion h.y. print bras, sain, hawdd ei ddarllen etc.

Sut y caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu?

Bydd angen i ddarpariaeth yr IAA fod yn ddigon hyblyg a chynhwysfawr i roi gwybodaeth a chynghor integredig i ystod eang o grwpiau o gleientiaid, o bob oedran a gallu.

Yn ymarferol bydd hyn yn golygu bod modd manteisio ar yr IAA drwy nifer o gyfryngau, a all gynnwys:

- ymgynghori wyneb yn wyneb
- sgwrs dros y ffôn
- gwasanaeth ar-lein pwrpasol

a chan amrywiaeth o bobl gan gynnwys:

- Plant / eu teuluoedd
- Oedolion
- Gofalwyr; neu
- weithiwr proffesiynol priodol, sy'n gweithredu ar ran ei gleient

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesu a Diwallu Anghenion

Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae'n creu hawl i asesiad i bobl - oedolion, plant (a'u teuluoedd) a gofalwyr - lle yr ymddengys i'r awdurdod lleol fod gan yr unigolyn anghenion ar gyfer gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwr). Mae'r hawl hwn yn bodoli waeth beth fo lefel yr angen ac adnoddau ariannol yr unigolyn.

O dan y Ddeddf, rhaid i asesiad geisio nodi'r canlyniadau y mae'r unigolyn am eu cyflawni ac asesu a all y ddarpariaeth o ofal a chymorth (neu gymorth yn achos gofalwyr); gwasanaethau ataliol; gwybodaeth, cymorth neu gyngor; neu faterion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny, ac os felly, i ba raddau.

Os yw'r unigolyn yn blentyn rhaid i'r asesiad hefyd gynnwys ystyriaeth o'i anghenion datblygiadol; y canlyniadau y mae ei rieni am iddynt gael eu cyflawni; ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar ei les.

(Noder: Nid yw hyn yn berthnasol i blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol - bydd dyletswyddau ar wahân yn gymwys i'r rhain: fel y nodir yn Rhan 6 o'r Ddeddf),

Os yw'r unigolyn yn ofalwr, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i asesu ei anghenion o ran cymorth os yw'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl yn ei ardal.

Yn achos asesiad gofalwr, rhaid i'r awdurdod lleol wneud y canlynol hefyd:

- asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn fodlon ac yn gallu gofalu am yr unigolyn, ac y bydd yn parhau i fod yn fodlon ac yn gallu gwneud hynny.

At hynny, rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio (neu'n dymuno gwneud hynny) ac ystyried unrhyw hyfforddiant, addysg neu weithgareddau hamdden y mae'n cymryd rhan ynddynt neu'n dymuno cymryd rhan ynddynt. Yn achos gofalwr ifanc, mae hefyd yn rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y canlyniadau y mae ei rieni yn dymuno eu cyflawni ar ei gyfer, ei anghenion datblygu ac a yw'n briodol iddynt ddarparu gofal yng ngoleuni'r anghenion hyn.

Rhaid i **bob asesiad** gael ei gynnal mewn ffordd sy'n gymesur ym marn yr awdurdod lleol, o dan

yr amgylchiadau. Rhaid i asesiadau gynnwys yr unigolyn ei hun (ac unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto) a lle y bo'n ymarferol, ei ofalwr; neu yn achos asesiad o ofalwr, yr unigolyn y mae'n darparu gofal ar ei gyfer neu'n bwriadu gwneud hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer cyfuno asesiadau; i bobl a'u gofalwyr (lle y bo'n briodol); ac i bobl y mae angen asesiadau lluosog arnynt (e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, anghenion addysgol arbennig).

A all unigolyn wrthod asesiad?

Gall oedolion, plant (a'u rhieni) a gofalwyr (waeth beth yw eu hoedran) wrthod asesiad o anghenion os mai dyna yw eu dymuniad. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu anghenion rhywun waeth a yw'r person yn dymuno gwrthod yr asesiad.

Fodd bynnag, os bydd y person a wrthododd yr asesiad yn newid ei feddwl neu os yw'r anghenion neu'r amgylchiadau'n newid, mae dyletswydd unwaith eto ar yr awdurdod lleol i asesu ei anghenion.

Beth sy'n digwydd ar ôl asesiad?

Ar ôl cynnal asesiad, os bydd gan unigolyn anghenion gofal a chymorth, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried beth y gellid ei wneud i'w diwallu.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer rheoliadau a fydd yn pennu meini prawf cenedlaethol ar gyfer yr amgylchiadau lle y caiff unigolyn ei ystyried yn rhywun sydd ag anghenion cymwys ar gyfer cael cymorth gan yr awdurdod lleol. Yma, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu pobl i gael y gwasanaethau sy'n iawn iddyn nhw.

Hefyd, gellid diwallu anghenion unigolyn drwy ddarparu gwasanaeth i'w ofalwr.

Nid oes dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth hynny y mae gofalwr yn eu diwallu, neu yn achos plentyn, y mae teulu'r plentyn yn eu diwallu. Os na fydd y gofalwr bellach yn diwallu'r anghenion, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adolygu anghenion y person, a allai olygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddechrau ddiwallu'r anghenion hynny.

Beth am y rhai nad oes ganddynt 'anghenion cymwys'?

Ni waeth a yw anghenion unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth:

- os oes ei angen er mwyn diogelu oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso; neu
- os oes ei angen er mwyn diogelu'r plentyn rhag cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio.

Mae gan yr awdurdod lleol bwerau hefyd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth os nad oes dyletswydd arno i wneud hynny, p'un a yw wedi cynnal asesiad o anghenion ai peidio.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiad a Chymorth i Ofalwyr

Bydd y Ddeddf yn dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'n symleiddio ac yn atgyfnerthu'r gyfraith sy'n ymwneud â gofalwyr ac am y tro cyntaf, yn rhoi hawliau cyfatebol i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahaniaethu rhwng gofalwyr sy'n oedolion a rhai sy'n blant er mwyn ystyried problemau penodol a wynebier gan blant sy'n ofalwyr.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)

Cynlluniwyd y Ddeddf er mwyn sicrhau y gall gofalwyr fanteisio ar ystod ehangach o wasanaethau priodol mewn ffordd fwy hyblyg; gan gynnwys cael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr yn ymwneud â phob math o wasanaethau cymorth a seibiant.

Bydd gwasanaethau IAA yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyfeirio gofalwyr ac eraill at wasanaethau gofal a chymorth ataliol yn eu cymuned heb yr angen am asesiadau ffurfiol.

Asesiad Cymesur

Mae'r Ddeddf yn creu dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad gofalwr lle yr ymddengys fod gan y gofalwr anghenion cymorth. Nid oes angen i'r gofalwr mwyach ddarparu llawer iawn o ofal yn rheolaidd, fel oedd yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth flaenorol. At hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau fod yn gymesur er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws ar ddarparu cymorth.

Mae hyn yn golygu y gellir trefnu sefyllfaoedd syml fel darparu help tymor byr i rywun ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty, gwasanaeth pryd ar glud, help yn y cartref, siopa â chymorth, garddio, cludiant, mynediad at wasanaethau hamdden ac ati, o ganlyniad i asesiad cymesur. I bobl ag anghenion mwy cymhleth, lle mae angen cymorth gan ystod eang o wasanaethau, bydd angen asesiad mwy cynhwysfawr.

Gwasanaethau Ataliol yn y Gymuned

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer cymorth yn golygu y caiff y rhan fwyaf o ofalwyr gymorth drwy wasanaethau IAA a / neu drwy wasanaethau ataliol yn y gymuned heb yr angen am asesiad cynhwysfawr. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio annog twf ac ystod y gwasanaethau hyn yn y sector statudol a'r trydydd sector.

Ar ôl asesiad

Caiff 'fframwaith cymhwysedd' cenedlaethol ei ddatblygu a chaiff y manylion am sut y bydd hwn yn

gweithredu eu nodi yn y Rheoliadau. Yn yr un modd ag y caiff y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth eu hasesu er mwyn penderfynu a oes ganddynt 'anghenion cymwys', felly hefyd y caiff gofalwyr eu hasesu fel rhai sydd ag 'anghenion cymwys' am gymorth yn erbyn y meini prawf cymhwysedd i ofalwyr o fewn y fframwaith cenedlaethol.

Cynlluniau Cymorth

Os caiff gofalwr ei asesu a'i gadarnhau fel rhywun sydd ag 'angen cymwys' am gymorth, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cynllun cymorth ar waith i'r gofalwr. Bydd y cymorth hwn yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn helpu gofalwyr i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt eu hunain. Bydd yn nodi'r cymorth a fydd yn eu helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn a rhoi cymorth neu drefnu ar gyfer darparu'r cymorth hwn.

Caiff cynlluniau cymorth eu hadolygu'n gyson, a bydd gan yr awdurdod lleol hefyd ddyletswydd i gynnal asesiadau pellach a diwygio'r cynllun os bydd newid wedi bod yn amgylchiadau'r gofalwr.

Beth sy'n digwydd os bydd y gofalwr a'r unigolyn y gofelir amdano yn symud o un ardal awdurdod yng Nghymru i un wahanol?

Caiff y ddyletswydd ar awdurdod lleol i gynnal asesiad o anghenion gofalwr ei rhoi ar waith pan fydd yr unigolyn y mae'n gofalu amdano yn symud i ardal yr awdurdod lleol hwnnw ac yn dechrau preswyllo yno. Bydd dyletswyddau eraill hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol rannu gwybodaeth yn ymwneud â gofalwr unigolyn pan fydd yr unigolyn hwnnw'n symud ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol sicrhau, lle bo gofalwr (a'r rhai y mae'n gofalu amdanynt), yn symud dros dro i'r ardal honno, y caiff anghenion y gofalwr am gymorth eu hasesu ynghyd ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

Taliadau Uniongyrchol

Bydd gan ofalwyr a asesir gan eu hawdurdod lleol fel rhai sydd ag angen cymwys am gymorth yr hawl, fel sydd ganddynt ar hyn o bryd, i gael taliadau uniongyrchol (yn amodol ar asesiad ariannol) fel y gallant drefnu eu cymorth eu hunain. Bydd rheoliadau a chod ymarfer newydd yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol ac yn ei gwneud yn haws i ofalwyr gael gafael arnynt a'u defnyddio.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynlluniau Gofal a Chymorth

Pryd fydd angen cynllun gofal a chymorth ar rywun?

Os oes gan rywun 'anghenion cymwys' yn dilyn asesiad, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chymorth sy'n amlinellu:

- ym mha ffyrdd y gellir cefnogi'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau y mae am eu cyflawni;
- y mathau o ofal a chymorth sy'n fwyaf addas ac ar gael iddynt;
- sut mae cael mynediad at y rhain.

Beth yw cynllun gofal a chymorth?

Cynllunio gofal a chymorth yw'r broses lle mae awdurdod lleol yn helpu unigolyn (ac unrhyw ofalwr sydd ganddo) i benderfynu pa wasanaethau neu gymorth ehangach a fydd yn diwallu ei anghenion asesedig orau.

Mae'n cofnodi anghenion asesedig ac 'anghenion cymwys' unigolyn ac yn disgrifio sut mae awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r anghenion hynny, neu wneud trefniadau i'w diwallu. Adolygir cynlluniau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gyfredol.

At beth y mae'r Bil yn ei ddarparu?

Bydd gan bawb ag anghenion cymwys gynllun gofal a chymorth.

Wrth baratoi, adolygu neu ddiwygio cynllun gofal a chymorth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys yr unigolyn y mae'r cynllun ar ei gyfer, a lle bo'n ymarferol, unrhyw ofalwr sydd gan yr unigolyn hwnnw. Os yw'r unigolyn yn blentyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y plentyn ag unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb riant dros y plentyn.

Os yw'r awdurdod lleol yn credu bod amgylchiadau unigolyn ag 'angen cymwys' wedi newid, mae'n rhaid iddo gynnal asesiad cymesur newydd a diwygio'r cynllun yn unol â hynny

Gall y rheoliadau ddarparu manylion pellach am y canlynol:

- Y gwaith o baratoi cynlluniau a'u cynnwys
- Unrhyw fformat penodol o ran y cynlluniau
- Trefniadau adolygu neu ddiwygio a'r amgylchiadau
- Pobl i'w cynnwys / ymgynghori â hwy wrth ddatblygu / adolygu cynlluniau a'r rhai a all baratoi'r cynlluniau
- Pobl y gellir rhannu'r cynlluniau â hwy;

- Cyfuno'r gwaith o baratoi ac adolygu cynlluniau â chynlluniau statudol eraill e.e. y rhai o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mae'n ofynnol hefyd i blant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n cael eu lletya gael cynllun gofal a chymorth a rhaid paratoi cynllun llwybr i oedolion ifanc sy'n gadael gofal.

Hygludedd gofal a chymorth

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno hygludedd cynlluniau gofal a chymorth i oedolion a phlant sydd ag 'anghenion cymwys' ar draws ffiniau awdurdodau lleol Cymru.

- Os yw unigolyn ag anghenion gofal a chymorth wedi hysbysu awdurdod lleol y bydd yn symud i ardal newydd, bydd yn rhaid i'r awdurdod hwnnw hysbysu'r awdurdod y mae'r unigolyn yn symud iddo a rhannu copi o gynllun gofal a chymorth yr unigolyn ag ef.
- Os yw awdurdod lleol yn fodlon bod rhywun ag anghenion gofal a chymorth yn symud i'w ardal o ran arall o Gymru, mae'n rhaid i'r awdurdod hwnnw roi trefniadau ar waith ar gyfer gofal a chymorth a fydd yn parhau nes ei fod yn cynnal adolygiad / ailasesiad o anghenion yr unigolyn.

Mae hyn yn golygu os bydd oedolion neu blant sydd ag 'anghenion cymwys' yn adleoli o fewn Cymru, gan symud o bosibl yn agosach at eu teuluoedd, fod gan yr awdurdod 'newydd' ddyletswydd i gynnal y gofal a'r cymorth a nodir yn eu cynllun, o leiaf nes ei fod wedi cael y cyfle i adolygu eu hanghenion. Os cynhelir yr adolygiad hwn cyn i'r unigolyn ddechrau preswyllo yn yr ardal, yna cyn gynted ag y bydd wedi symud caiff ei gefnogi o dan y cynllun newydd. Mae'n bwysig cydnabod nad yw diwallu anghenion yr unigolyn o reidrwydd yn golygu cynnig yr un gwasanaethau yn union ag yr oedd yr unigolyn yn eu derbyn cyn symud.

Nid yw'r trefniadau hygludedd hyn yn gymwys mewn perthynas â chynlluniau gofal i ofalwyr. Felly, mewn achosion o'r fath, ni fydd dyletswydd ar yr awdurdod newydd i roi trefniadau trosiannol ar waith.

Fodd bynnag, gan fod y Bil yn creu dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr drwy eu hawl eu hunain, bydd hyn yn digwydd bellach, fel y gall gofalwyr sy'n byw o fewn ardal yr awdurdod lleol newydd arfer yr hawl hon.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mentrau cymdeithasol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector

Beth yw'r newidiadau?

Mae'r Ddeddf yn newid y modd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio. Bydd pobl yn gallu cael cyngor a chymorth am fathau gwahanol o ofal a chymorth a hynny'n fuan, er mwyn iddynt fedru parhau i fyw eu bywydau. Rydym am hyrwyddo mathau newydd o wasanaethau, a chynnwys pobl yn y gwaith o'u cynllunio a'u rhoi ar waith.

Beth y mae Adran 16 o'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo:

- mentrau cymdeithasol
- mentrau cydweithredol
- y trydydd sector

a gwneud rhagor o gynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau a'u rhoi ar waith.

Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym am i ragor o bobl fyw'r bywyd y maen nhw'n ei ddewis, ac am gyfnod hirach, gan eu helpu i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Gwyddom y gall cynnig ychydig o gymorth gyda thasgau bob dydd wneud gwahaniaeth mawr. Heb y cymorth hwnnw, gall pobl wynebu anawsterau gwirioneddol ac, yn y pen draw, mae'n bosibl y bydd angen llawer o ofal a chymorth arnynt. Mae hynny'n golygu y bydd angen darparu gwasanaethau newydd a mathau gwahanol o wasanaethau.

Beth y mae "hyrwyddo" yn ei olygu?

Gall olygu llawer o bethau gwahanol, ond y peth pwysig yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod digon o wasanaethau, a'r math iawn o wasanaethau, i roi'r cymorth ychwanegol i bobl fedru gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Beth yw mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol?

Busnesau a chanddynt amcanion cymdeithasol yn bennaf yw mentrau cymdeithasol, a chaiff yr elw ei

aifuddsoddi yn eu gwasanaethau neu'r gymuned. Maent yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'u hincwm drwy fasnachu mewn nwyddau neu wasanaethau, yn hytrach na drwy roddion neu grantiau.

Mae mentrau cydweithredol yn eiddo i'w haelodau a nhw sy'n eu rhedeg hefyd. Maent yn cydweithio i fodloni anghenion a dyheadau cyffredin. Caiff yr elw ei rannu ymhlith yr aelodau.

Beth yw'r trydydd sector?

Mae'r trydydd sector yn cynnwys gwahanol fathau o gyrff. Cyrff annibynnol, nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth yw'r rhain, a chânt eu sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n awyddus i gyflawni amcanion cymdeithasol. Caiff unrhyw elw ei aifuddsoddi er budd cymdeithasol neu er bydd y gymuned, yn hytrach na'i roi i gyfranddalwyr.

Mae mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn rhan o'r trydydd sector, ynghyd ag elusennau, cwmnïau cydfuddiannol, cymdeithasau, grwpiau cymunedol a grwpiau hunangymorth.

Beth yw gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr?

Os yw gwasanaeth yn cael ei arwain gan ddefnyddwyr, caiff y gwasanaeth hwnnw, y polisïau a'r dulliau o weithredu eu cynllunio a'u rheoli gan y rhai a fydd yn eu defnyddio'u hunain.

Beth yw rôl awdurdodau lleol?

Bydd awdurdodau lleol drwy Gymru gyfan yn rhoi trefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod gan bobl lais yn y math o wasanaethau sydd eu hangen.

Byddant yn gwrando ar yr hyn y bydd pobl yn ei ddweud ac yn ystyried pa fath o wasanaethau fydd yn gweithio mewn gwirionedd i roi'r gofal a'r cymorth ychwanegol sydd eu hangen.

Bydd ganddynt wasanaeth sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl. Bydd y wybodaeth i gyd mewn un lle, bydd yn hawdd cael gafael arni ac yn hawdd ei deall.

Beth fydd y gwahaniaeth i bobl?

Bydd rhagor o wasanaethau'n cael eu cynllunio'n ôl yr hyn sy'n bwysig i bobl a bydd gan bobl lais go iawn yn y broses o'u cynllunio a'u rhoi ar waith.

Beth fydd "cynnwys pobl" yn ei olygu mewn gwirionedd?

Mae cynnwys pobl yn golygu gofyn pa wasanaethau sy'n bwysig iddynt, a dangos sut y mae eu barn wedi cyfrannu at y gwaith o gynllunio gwasanaethau a'u rhoi ar waith.

Dylai Awdurdodau Lleol esbonio sut y byddant yn cynnwys pobl a beth fydd hynny'n ei olygu. Dylent ystyried a oes unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag cynnwys pobl yn y broses a sut y gellid goresgyn y rhwystrau hynny.

Oes yna reolau?

Bydd Rheoliadau a Chôd Ymarfer i'w darllen ochr yn ochr â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

O ble gaf i ragor o wybodaeth?

Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: **www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol, anfonwch e-bost i flwch postio'r ymgynghoriad : **sswbimplementation@Wales.GSI.Gov.UK**

Cafodd y daflen hon ei pharatoi er gwybodaeth i chi: nid deddfwriaeth ydyw a bydd angen i chi ddarllen y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Côt Ymarfer i weld manylion y gyfraith.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GOBLYGIADAU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOLA LLESIANT (CYMRU) I'R GIG YNG NGHYMRU

Mae elfennau allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n berthnasol i iechyd neu ddarparu gofal iechyd wedi'u nodi yn y paragraffau canlynol.

Adran 14: Asesu anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol asesu ar y cyd i ba raddau y ceir pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, neu ofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Dylent hefyd asesu i ba raddau nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu, ac ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r adran hon hefyd yn sicrhau bod yr asesiad poblogaeth hwn yn cael ei ystyried fel rhan o fframweithiau cynllunio integredig ehangach.

Adran 15: Gwasanaethau ataliol

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i atal, oedi neu leihau'r angen am ofal a chymorth. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ystyried pwysigrwydd cyflawni'r dibenion ataliol hyn wrth arfer eu swyddogaethau.

Adran 17: Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am y gofal a'r cymorth mae'n eu darparu yn ardal yr awdurdod lleol perthnasol.

Adran 29: Cyfuno asesiadau o anghenion ac asesiadau eraill

Caiff awdurdod lleol wneud asesiad o anghenion ar gyfer person ar yr un pryd ag y mae ef, neu gorff arall, yn gwneud asesiad arall. Caiff yr awdurdod lleol wneud yr asesiad arall ar ran y corff arall, neu

ar y cyd ag ef (er enghraifft, y Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG).

Adran 47: Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd

Mae'r adran hon yn nodi na chaiff awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu gwasanaethau neu gyfleusterau y byddai eu hangen o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 neu Ddeddf y GIG 2006, oni bai y byddai gwneud hynny'n rhan neu'n ategol i gamau gweithredu eraill oddi mewn i bwerau'r awdurdod lleol.

Adrannau 128 a 130: Dyletswydd i hysbysu am oedolion neu blant sy'n wynebu risg

Mae'r adran hon yn nodi ei bod yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG (fel partneriaid perthnasol) roi gwybod i awdurdodau lleol os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod oedolyn neu blentyn yn wynebu risg.

Adran 134: Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion

Mae'r adran hon yn ymwneud â sefydlu Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion. Bydd rheoliadau'n pennu'r ardaloedd yng Nghymru lle bydd Byrddau Diogelu, a bydd y Byrddau Iechyd Lleol perthnasol ac Ymddiriedolaethau perthnasol y GIG yn bartneriaid, ac felly bydd ganddynt gynrychiolwyr ar y Byrddau.

Adrannau 162-169: Cydweithredu, integreiddio gofal a chymorth a threfniadau partneriaeth

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn ymwneud â chydweithredu a phartneriaeth. Mae Adran 162 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau gyda'u partneriaid perthnasol, sy'n cynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, i hybu cydweithrediad. Mae'r cydweithrediad hwn yn ofynnol mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth ac oedolion

sy'n ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys gwella llesiant, gwella ansawdd y gofal a'r cymorth ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod.

Mae Adran 163 yn diwygio Deddf Plant 2004 ac yn nodi trefniadau i'r awdurdodau lleol hybu cydweithrediad gyda'u partneriaid perthnasol, gan gynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hyn yn cynnwys gwella llesiant, gwella ansawdd y gofal a'r cymorth ac amddiffyn plant sy'n wynebu risg o gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Mae Adran 164 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG gydweithredu ag awdurdodau lleol a rhoi gwybodaeth iddynt, ar gais, i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Adran 166 yn galluogi i reoliadau gael eu datblygu i fanylu ar y trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd. Bydd y rheoliadau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer pennu pa awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd a ddylai gael trefniadau partneriaeth, ffurf y trefniadau partneriaeth, a'r dull o weithredu a rheoli'r trefniadau hyn, gan gynnwys rhannu gwybodaeth.

Mae Adran 167 yn darparu ar gyfer rheoliad i alluogi i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd dalu tuag at unrhyw wariant a wneir mewn perthynas â threfniadau partneriaeth o dan adran 166. Gallai hyn gynnwys gwneud taliadau'n uniongyrchol neu drwy gyfrannu at gronfa gyfun. Hefyd, caiff awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill at ddibenion trefniadau partneriaeth. Caiff rheoliadau wneud darpariaethau sy'n galw am sefydlu cronfa gyfun, i benderfynu ar y cyfraniadau i'w gwneud gan bartneriaid i'r gronfa gyfun. Bydd y rhain ar gyfer gwariant cysylltiedig â swyddi, gwasanaethau, gweinyddu neu unrhyw gostau eraill cysylltiedig â threfniadau partneriaeth.

Mae Adran 168 yn darparu pwŵer i lunio rheoliad ar gyfer sefydlu byrddau partneriaeth, mewn

perthynas â threfniadau partneriaeth. Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer manylu ar aelodaeth y byrddau partneriaeth (gan gynnwys Byrddau Iechyd), yr amcanion, y swyddogaethau a'r gweithdrefnau, ffurf yr adroddiadau, eu cynnwys, eu hamseru a'u cyhoeddi.

Mae Adran 169 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi ac adolygu'n rheolaidd ganllawiau ar waith partneriaeth mewn perthynas ag adran 166. Bydd hyn yn berthnasol i bartneriaid, sy'n cynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd. Bydd y canllawiau'n berthnasol hefyd i'r tîm neu'r person sy'n gwneud y trefniadau partneriaeth, ac unrhyw fyrddau partneriaeth sydd wedi'u sefydlu o dan adran 168.

Adran 171: Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol

Mae Adran 171 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer ystyried cwynion perthnasol i wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau o dan adran 33 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu adran 75 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.

Adran 180: Gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer cwynion am ofal lliniarol

Mae Adran 180 yn diwygio adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i gynnwys cyfeiriad at wasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer gofal lliniarol.

© Hawlfraint y Goron 2014



Deall y Ddeddf

#DeallyDdeddf

www.cgymru.org.uk